Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gymunedol Abergynolwyn, Nos Lun 12fed Mehefin 2017 am 7.00 o'r gloch

Presennol: Gadeirydd Eleri Puw, Is Gadeirydd Elwyn Evans, , H.E. Thompson, Gareth Evans, Robert Jones,Steve Lewis , Cyng Gwynedd Beth Lawton a'r clerc Eileen Jones.

Ymddiheuriad: Cyng. Clare Crowley a Wendy Whitby(sâl) Datgan Diddordeb: Dim

Croeshawyd pawb gan y Cadeirydd Eleri Puw

Derbyniwyd confnodion Mai 2017 a'u llofnodi gan y Cadeirydd,

1. Cae Chwarae: Pasiwyd i dalu Glasdon am y fainc. Trafodwyd sut y gallem ddangos i'r cyhoedd bod dau mainc picnic wedi eu noddi gan Sioe Abergynolwyn. Y Clerc i edrych i fewn i hyn. Nodwyd bod y sleid isio sylw, pasiwyd i ail wneud yr ysgol fach a gwaith fel bo'r galw. Cysylltu a Barry Shellis.
2. Mynwent: Fedw Derbyniwyd un pris am waith fynwent y LLan. Pasiwyd i aros am ail bris. Pasiwyd i dalu am allos bin sbwriel y LLan. Pasiwyd i dalu Jones & Jones am dorri a chlirio goeden y Fedw.–
3. Llwybrau: dim
4. Y Ganolfan: Pasiwyd i dalu - llogi am y flwyddyn.
5. Cyng. Gwynedd: Nid oedd dim i adrodd, Cyfarfod LLawn Cyngor Gwynedd y diwrnod canlynol. Adroddodd bod Dilys Williams wedi cysylltu ynglyn a Cwmni Egni Abergynolwyn , Cyng Lawton i adrodd yn ol. Wardiau i fynd o 75 – 68. Gwynedd yn cynnig Bryncrug / Llanfihangel i gynwys pentref Llanegryn. Diolch i'r Cyng. Beth Lawton.
6. Archwiliad Mewnol: Yr archwiliad mewnol wedi ei cwbwlhau ac fe aeth y Clerc drwy'r datganiad Llywodraethau Blynyddol Rhan 1 a 2, pawb yn gytun eu bod yn gywir yn ol ein gallu. Pasiwyd i'r Cadeirydd a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol i lofnodi y Cymeradwyaeth ac ardystiad y Cyngor.
7. Ciosg Nodwyd bod ffenestr wedi torri – Ciosg ger Caerberllan.
8. Un Llais Cymru: Cyfarfod nesaf Mehefin 21ain , angen cynnig enwau Cadeirydd ag Is Gadeirydd. Danghosodd Cyng Elwyn Evans, diddordeb fod yn Is Gadeirydd, llenwyd y papur priodol, cynnig Cyng. Thompson ag eilydd Cyng Robert Jones.
9. Toiledau Cyhoeddus: Pasiwyd i dalu ein rhan am Ebrill hyd ddiwedd Hydref.
10. Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd gwybodaeth bod gwair yn cael ei dorri ym mis Mehefin.
11. Cod Ymddygiad: Cyngor Gwynedd yn holi os oedd ganddom diddordeb mewn cwrs i Clerc a Cadeirydd. Pasiwyd y buasem yn mynychu.
12. Parc Eryri: Atgoffa cyfarfod Aberdyfi 19/6/17, hefyd y Parc yn cynnig coed afalau am ddim. Pasiwyd i gael rhai.
13. The Pensions Regulator: Derbyniwyd llythyrau ond nid yn gymwys i'r Cyngor.
14. T.A.W: Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn £1,521.44 yn ol am blynyddoedd 2015, 2016 a 2017.
15. AdroddiadTrysorydd: Yn ol y drefn newydd derbyniwyd copi o adroddiad hyd at diwedd Mai, pawb yn hapus.
16. Golau rhif 3 yn ymyl 20 Stryd Llanegryn ddim yn gweithio.
17. Taliadau:

Glasdon	mainc	£475.03	siec	897
Cyngor Gwynedd	LLan	71.00		898
Jones & Jones	Fedw	450.00		899
Y Ganolfan	llogi	176.00		900
Cyngor Gwynedd	toiledau	2,000.00		901
Dail Dysynni	rhodd	100.00		902

YMDDIRIEDOLAETH - MARI JONES:

1. Dim yw adrodd.

Cyfarfod Nesaf Nos Lun 10fed Gorffennaf 2017 –Cyffredin am 7 o'r gloch